# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Mawrth 2016

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Buckle**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@Cynulliad.Cymru

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09.00)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.05) (Tudalennau 1 - 7)

**Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru: Llythyr gan Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (7 Mawrth 2016)**

(Tudalennau 8 - 9)

**Cyflog Uwch Reolwyr: Llythyr gan Syr Derek Jones (8 Mawrth 2016)**

(Tudalennau 10 - 11)

**Llywodraethiant Bwrdd Iechyd GIG Cymru: Llythyr gan Dr Andrew Goodall (9 Mawrth 2016)**

(Tudalennau 12 - 13)

## 3 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

(09.05-09.20) (Tudalennau 14 - 23)

PAC(4)-10-16 Papur 1 - Llythyr gan Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tiodi

PAC(4)-10-16 Papur 2 - Ymateb Llywodraeth Cymru

PAC(4)-10-16 Papur 3 - Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

(09.20)

Eitemau 5, 6 & 7

## 5 Etifeddiaeth Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad: Trafod yr adroddiad drafft

(09.20-10.00)

PAC(4)-10-16 Papur 4

## 6 Maes Awyr Caerdydd: Trafod yr adroddiad drafft

(10.00-10.45)

PAC(4)-10-16 Papur 5

## 7 Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(10.45 - 11.00)

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 8 Mawrth 2016

Amser: 09.02 - 11.01

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/3383

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jocelyn Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Sandy Mewies AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC<br>David Rees AC (yn lle Julie Morgan AC) |
| Tystion: | Gareth Bullock, Cyllid Cymru<br>James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Huw Vaughan Thomas (Archwilydd Cyffredinol Cymru)<br>Mark Jones (Swyddfa Archwilio Cymru) |

| | |
|---|---|
| | Mike Usher (Swyddfa Archwilio Cymru) |

**Trawsgrifiad**

Trawsgrifiad o’r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie Morgan. Roedd David Rees yn dirprwyo.

## 2 Papurau i’w nodi

2.1 Nodwyd y papur. Cytunodd yr Aelodau i gynnwys argymhelliad yn ei Adroddiad Etifeddiaeth bod y Pwyllgor olynol yn ystyried cynnal ymchwiliad i'r pwnc hwn.

### 2.1 Llythyr gan y Cadeirydd at Archwilydd Cyffredinol Cymru

## 3 Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Isadeiledd Band Eang y Genhedlaeth Nesaf: Trafod ymatebion i adroddiad y Pwyllgor

3.1 Nododd yr Aelodau yr ymatebion a chytunwyd i gynnwys argymhelliad yn Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor bod y Pwyllgor olynol yn gofyn am ddiweddariad pellach ar y cynnydd a wnaed yn ystod hydref 2016.

3.2 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad pellach ynghylch cymhlethdod gosod Band Eang (R1), y gost bosibl yn ychwanegol at werth y talebau sydd ar gael (R2), beth mae 'deinamig' yn ei olygu i'r defnyddiwr (R8), a disgrifiad o sut y gellir gwella'r wefan.

## 4 Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru

4.1 Craffodd y Pwyllgor ar James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru, a Gareth Bullock, Cadeirydd Cyllid Cymru plc, ar Gronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru.

4.2 Cytunodd James Price i wneud yr hyn a ganlyn:

- Rhoi eglurhad ynghylch cyfansoddiad y panel dethol, pryd y cafodd penodiadau'r panel cynghori eu gwneud, a nifer yr aelodau a benodwyd o du allan i Gymru;

- O fewn Llywodraeth Cymru, gofyn a ddylid rhannu'r cyngor cyfreithiol y mae Llywodraeth Cymru yn ei geisio â chyrff hyd braich;
- Cadarnhau lefel y cyllid grant a gynigiwyd i ReNeuron; ac
- Eglurhad ynghylch a gafodd cofnodion llawn eu cymryd yng nghyfarfodydd WIDAB ar 18 Mehefin 2013 a 24 Hydref 2013.

4.3 Cytunodd Gareth Bullock i ddarparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r ffioedd trefnu sy'n daladwy i Reolwyr y Gronfa gan Gwmnïau Buddsoddi.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Am fod amser yn brin, cytunodd yr Aelodau i drafod y dystiolaeth a gafwyd yn y cyfarfod ar 15 Mawrth 2016.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 1 Mawrth 2016

Amser: 09.02 - 11.03

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3382

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jocelyn Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Sandy Mewies AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gemma Gifford (Dirprwy Glerc)<br>Matthew Mortlock (Swyddfa Archwilio Cymru)<br>Huw Vaughan Thomas (Archwilydd Cyffredinol Cymru) |

**Trawsgrifiad**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.
1.2 Nid oedd ymddiheuriadau.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

### 2.1 Maes Awyr Caerdydd: Gwybodaeth ychwanegol gan Simon Jones, Cadeirydd Holdco (19 Chwefror 2016)

### 2.2 Maes Awyr Caerdydd: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru (22 Chwefror 2016)

### 2.3 Maes Awyr Caerdydd: Llythyr gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru (24 Chwefror 2016)

### 2.4 Maes Awyr Caerdydd: Gwybodaeth ychwanegol gan Chris Cain, Northpoint Aviation (23 Chwefror 2016)

### 2.5 Maes Awyr Caerdydd: Llythyr gan Undeb Rygbi Cymru - Cyfyngedig (24 Chwefror 2016)

### 2.6 Maes Awyr Caerdydd: Llythyr gan James Price, Llywodraeth Cymru (24 Chwefror 2016)

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2014-15: Ystyried ymatebion i adroddiad y Pwyllgor

3.1 Gwnaeth yr Aelodau drafod a nodi'r ymateb a gafwyd gan y sefydliadau ynghylch yr argymhellion a gyflwynwyd iddynt yn adroddiad y Pwyllgor a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

- Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am farn ar y materion yn ymwneud â threfniadau yswiriant Llyfrgell Genedlaethol Cymru, dull Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar gyfer codi ffi am ddigwyddiadau a'i barn am drefniadau'r ddau sefydliad o ran diswyddo.
- Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad esbonio'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i wneud y deunydd a gyhoeddir ar ei wefan yn fwy hygyrch, yn enwedig i bobl â gofynion penodol.
- Cynnwys argymhelliad yn ei adroddiad etifeddiaeth y dylai'r Pwyllgor dilynol graffu ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 yn nhymor yr hydref 2016 ac ystyried yn benodol a yw'r ffordd y cyflwynir y cyfrifon wedi gwella ac a ydynt yn cynnwys linc i Adroddiad Rheoli Grantiau Blynyddol Llywodraeth Cymru. Awgrymwyd hefyd efallai y bydd y pwyllgor dilynol am edrych yn ehangach ar ddull Llywodraeth Cymru o leihau ei defnydd o ynni.
- Cynnwys argymhelliad yn ei adroddiad etifeddiaeth y dylai'r Pwyllgor dilynol graffu ar gyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru yn nhymor yr hydref 2016.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Cytunwyd ar y cynnig.

## 5 Trafod y memorandwm cyd-ddealltwriaeth drafft diwygiedig ynghylch yr Adolygiad o Siarter y BBC

5.1 Gwnaeth yr Aelodau nodi a chroesawu'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth drafft diwygiedig ynghylch yr Adolygiad o Siarter y BBC.

5.2 Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i roi diolch iddi am wahodd y Pwyllgor i drafod y memorandwm cyd-ddealltwriaeth ac i roi gwybod hefyd y bydd adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor yn cynnwys argymhelliad y dylai'r pwyllgor dilynol ystyried cynnwys cyfrifon y BBC fel rhan o'i waith blynyddol yn craffu ar gyfrifon.

## 6 Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru: Gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

6.1 Cafodd yr Aelodau wybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch ei adroddiad, *Sefydlu ac arolygu Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru*, a gyhoeddwyd ar 26 Chwefror.

**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar AM
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

7 Mawrth 2016

Annwyl Darren

Rwy'n ysgrifennu atoch fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am y diweddaraf am adolygiad y Pwyllgor o Gronfa Gwyddorau Bywyd Cymru.

Dyma drydedd flwyddyn y Gronfa o'i chyfnod gweithredu o 10 mlynedd. Er gwaetha'r ffaith bod yr adolygiad dwy flynedd a hanner wedi bod yn faen tramgwydd ar ymdrechion Rheolwyr y Gronfa i godi arian, mae'r Gronfa eisoes wedi gwneud 11 o fuddsoddiadau mewn naw busnes. O'r rheini, mae chwech yn fewnfuddsoddwyr newydd i Gymru, mae dau yn fusnesau brodorol ac mae un yn fusnes newydd sydd wedi'i gydsefydlu yng Nghymru.

Hyd yma, mae'r Gronfa wedi sbarduno buddsoddi £200 miliwn a rhagwelir y bydd y buddsoddiadau hyn yn cyfrannu at greu bron 500 o swyddi o ansawdd uchel yng Nghymru dros oes y Gronfa.

Mae'r Gronfa eisoes wedi helpu i roi hwb i enw da sector Gwyddorau Bywyd Cymru trwy'r byd. Mae hi wedi ennyn sylw adeiladol helaeth gan y diwydiant a'r cyfryngau gan roi Cymru ar fap Gwyddorau Bywyd y byd a chreu penawdau cenedlaethol a rhyngwladol yn sgil buddsoddiadau megis y rheini i helpu Proton Partners International Ltd i sefydlu Canolfan Therapi Pelydr Proton gynta'r DU yng Nghasnewydd; a phenderfyniad ReNeuron plc, busnes bôn-gelloedd cyfnod clinigol blaenllaw i symud ei ffatri Meddyginiaethau Therapi Uwch fodern i Ben-coed.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwta wythnos yn ôl, cyhoeddon ni fod ReNeuron am gymryd llawr cyntaf cyntaf Therapia ym Mharc Busnes Pen-coed, 25,000 tr sg ohono. Daw hwn yn gyfleuster blaenllaw gyda labordai ymchwil a datblygu, stafelloedd glân i awto-feithrin celloedd, a swyddfeydd fydd yn gartref ger yr M4 i'r cwmni hwn sydd ar restr AIM.

Mae ReNeuron yn symud ei staff ac yn gobeithio creu 70 o swyddi newydd sy'n gofyn am y sgiliau gorau. Mae'r safle newydd hwn dair gwaith yn fwy na'i gartref presennol yn Guildford.

Gyda'r adolygiad bellach wedi'i gynnal, y gobaith nawr yw y cawn ailgydio yn y gwaith o godi arian a chynnal momentwm cynnar y Gronfa er mwyn denu rhagor o gwmnïau o safon byd i Gymru.

Mae natur arloesol y Gronfa yn golygu ein bod yn gweithio mewn ffordd newydd fel rhan o strategaeth y sector gwyddorau bywyd ehangach yng Nghymru.

Mae Deloitte wedi cyhoeddi mai Cymru yw'r rhanbarth sy'n perfformio drydydd orau yn y DU o ran buddsoddi mewn Gwyddorau Bywyd ac wythnos ddiwetha, roedd mwy na 600 o gynrychiolwyr y diwydiant wedi cofrestru ar gyfer y Bio Cymru mwyaf erioed. Yn y cyfamser, mae ein Hyb Gwyddorau Bywyd ym Mae Caerdydd yn parhau i fynd o nerth i nerth, mae'n ffocws gweledol i'r sector yng Nghymru ac yn gonglfaen ar gyfer helpu'r sector i dyfu, i wneud y mwyaf o bob cyfle, i ddenu buddsoddwyr, i fasnacholi ymchwil, i helpu busnesau ac i greu swyddi.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd fod arweinyddiaeth Cyllid Cymru yn newid.

Mae Cyllid Cymru wedi cyhoeddi penodiad Giles Thorley'n Brif Weithredwr newydd ar Grŵp Cyllid Cymru. Ar ôl gyrfa o ugain mlynedd ym myd busnes, mae gan Mr Thorley brofiad helaeth fel uwch-reolwr ac o reoli cronfeydd buddsoddi ecwiti preifat a bu hefyd yn angel busnes llwyddiannus. Bydd yn dechrau ar ei swydd newydd ar 4 Ebrill.

Mae penodiad Mr Thorley'n dilyn penodiad Gareth Bullock fel Cadeirydd newydd Grŵp Cyllid Cymru ar 1 Hydref 2015. Mae gan Mr Bullock hefyd gyfoeth o brofiad ar ôl gyrfa lwyddiannus a chlodwiw o 30 mlynedd yn y byd bancio rhyngwladol.

Edwina Hart

**Sir Derek Jones KCB**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar
Chair of the Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

8th March 2016

Dear Darren,

Thank you for the opportunity to appear before the Public Accounts Committee in the closing stages of this Assembly term. I hope the Committee found the discussion useful.

Following the discussion on the Committee's report on senior management pay in the public sector, and in particular, senior salaries in Higher Education Institutions (HEIs), the Committee asked me to explore further whether HEFCW receives financial information, specifically about senior pay and conditions, from universities during the year that could raise concerns in HEFCW or the Welsh Government.

The governing bodies of HEIs are responsible for the remuneration of their senior staff, and these institutions disclose information to HEFCW on senior pay on an annual basis through their annual accounts. HEFCW does not routinely require information in-year.

However, in response to the PAC's report on senior management pay and the Welsh Government's acceptance of the recommendations, the Minister for Education and Skills' remit letter to HEFCW for 2015-16 included a requirement for the Council to monitor senior pay levels and awards in the HE sector and submit a report to the Welsh Government on an annual basis, outlining the position for HEIs in Wales.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823289
PS.PermanentSecretary@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • Website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

HEFCW have confirmed that their report, which will be based on the published financial statements of HEIs, will be submitted by the end of March 2016. Welsh Government officials will be able to review the situation formally once the report has been received.

Lastly, during the discussion on the senior management pay report, Peter Kennedy said that a draft timeline for the implementation of the remaining recommendations would be discussed at the March meeting of the Workforce Partnership Council. I'm afraid this was not correct, however it is our intention to take this to a future meeting of the Council.

Yours,

Derek

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823289
PS.PermanentSecretary@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar AM
Chair
Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF10 3NQ

Our Ref: AG/SR/TLT

9 March 2016

Dear Mr Millar

**Public Accounts Committee Report – Wider issues emanating from the governance review of Betsi Cadwaladr University Health Board**

**Initial Views on the Report**

I outline below the Welsh Government initial response at official level to the above report, published on 26 February.

The Welsh Government will provide a full response to the report and the 27 recommendations in the fifth Assembly. In the interim please find below some initial views and update for your final meeting scheduled for 15 March.

The recent consultation on the Green Paper *Our Health, Our Health Service* received responses and comments on a number of areas highlighted in your report, including health board membership and leadership, achieving collaboration and partnership working and effective regulation and inspection. The Minister for Health and Social Services said at the outset that this exercise would helpfully inform the incoming government. Whilst the report on the consultation responses received sets out the main findings, it is underpinned by a rich source of information to inform and enable the next Government to bring forward any detailed proposals. This report and its recommendations will provide further evidence for consideration for the next Welsh Government.

The report also considered how Betsi Cadwaladr University Health Board was responding to special measures and progress being made. The Welsh Government published the



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 02920 801182/1144
Andrew.Goodall@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

improvement framework for the health board on the 29 January setting out clearly the expectations and milestones it will need to meet during the next two years. The health board will report on the first six months in May 2016, including progress on the key areas highlighted in your report – mental health and GP out-of-hours services.

The new chief executive started in post on 29 February and has clearly set out his priorities within his first few months including addressing a number of specific areas - mental health, primary care, unscheduled care and waiting times and evidence that the health board is making progress against all the requirements of the special measures improvement framework.

I note the reference to overspend contained in the report and press release, but this has not focussed on the improvement that was expected and has now happened, based on my letter to you.  The Health and Social Services Minister has also been clear that he expects the health and social services budget will break even at year end, and this remains the case.

Yours sincerely

**Dr Andrew Goodall**

Eitem 3

**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-( P ) / LG/1073/16

Darren Millar AM
Chair
Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

7th March 2016

Dear Darren

**REPORT OF THE PUBLIC ACCOUNTS COMMITTEE ON THE REGENERATION INVESTMENT FUND FOR WALES**

I enclose the Welsh Government's formal response to the Public Accounts Committee's report on the Regeneration Investment Fund for Wales (RIFW) following your letter of January 2016.

I share the frustration of the Committee we were not able to generate the benefits originally intended from the RIFW model and from the important public assets transferred into the Fund. Whilst we have taken firm actions designed to make best use of the resources that were tied up in the Fund, it has not been possible to realise the planned, longer term benefits associated with pursuing regeneration projects utilising loan rather than grant funding.

You will have seen from the First Minister's statement in the National Assembly on 26 January we are clear the way RIFW was managed fell well below the standards we would expect as a Government and for that we have apologised. We have made clear our view, the RIFW concept was a good one, however, its delivery was flawed.

The Committee's report highlights very clearly the central role played by the Fund's commercial advisers in carrying out the functions of the Fund and sets out some very serious concerns regarding how these functions were exercised. In light of those concerns and our own investigations, I am today able to confirm a legal process has been initiated against the Fund's Investment Managers, Lambert Smith Hampton. We are keeping under review whether further legal steps may be necessary.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

I am pleased the Committee acknowledged the steps which have been taken since 2012 to address the concerns identified in this case, including the report commissioned from Gilbert Lloyd into the Fund's governance arrangements in 2013. You will be aware my predecessors and I have subsequently taken a number of steps designed to safeguard and make best use of the resources tied up in the Fund. This includes my announcement on 26 January that £16.5 million will now be made available to fund regeneration projects in 2016-17. I am also pleased to reassure the Committee we remain focussed on maximising the proceeds for the public purse arising from the overage provisions attached to the sale of RIFW's land assets.

Moving forward it is vital the Welsh Government learns lessons from the RIFW experience and takes every opportunity to improve our practice. The Committee has acknowledged the action already taken to improve our oversight of matters relating to RIFW and our internal arrangements for transferring projects between departments. This work now needs to continue, both with regard to our sponsorship of arms length bodies more generally and to the broader challenges surrounding the identification, oversight and management of major projects.

Our detailed response to each of the Committee's detailed recommendations is attached.

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty

**Ymateb i adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio**

Rydym yn croesawu casgliadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'w argymhellion:

**Argymhelliad 1**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos ei bod wedi gwneud newidiadau priodol fel bod trefniadau llywodraethu, goruchwylio ac atebolrwydd yn gadarn, wedi'u diffinio'n glir a bod pob parti dan sylw yn eu deall, mewn cysylltiad â'r Gronfa, ond hefyd mewn cysylltiad â'r holl weithgareddau eraill y mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â nhw.**

**Ymateb: wedi ei dderbyn.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau ei threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn sgil yr adrefnu mewnol a ddigwyddodd ym mis Gorffennaf 2015, a hynny drwy:

- Benodi set o "Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol" newydd ar lefel cyfarwyddwr, i ysgwyddo cyfrifoldeb personol ar gyfer meysydd allweddol ym musnes Llywodraeth Cymru, a hefyd yr atebolrwydd ar gyfer y meysydd hynny.
- Diweddaru *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru,* a chyhoeddi'r fersiwn diwygiedig.
- Cyhoeddi cyfres o Hysbysiadau Prif Swyddog Cyfrifyddu er mwyn cryfhau trefniadau, gan gynnwys materion megis trosglwyddo cyfrifoldebau yn sgil newidiadau i'r peirianwaith llywodraethu.

Mae Llywodraeth Cymru yn cryfhau ei threfniadau goruchwylio drwy:

- Ad-drefnu ei Phwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol yn Bwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg sy'n gydnaws â'r trefniadau mewnol newydd ar gyfer creu grwpiau (ers mis Gorffennaf 2015). Bydd hyn yn sicrhau mwy o gydweithio rhwng y grwpiau Archwilio a Sicrhau Risg a phrif Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Llywodraeth Cymru drwy fod aelodau anweithredol yn aelodau o'r ddau.
- Gweithredu dull cyffredin newydd o gynllunio busnes sy'n atgyfnerthu'r 'llwybr clir' o'r Rhaglen Lywodraethu i'r camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru, ac sy'n cynnwys, fel elfennau safonol, gerrig milltir a mesurau perfformiad yn erbyn amcanion busnes.

**Argymhelliad 2**
**Pe byddai Llywodraeth Cymru yn sefydlu cyrff hyd braich yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn argymell bod yn rhaid i swyddogaethau a rolau Aelodau Bwrdd y cyrff hyn gael eu diffinio'n glir a bod yn rhaid i bawb dan sylw eu deall.**

**Ymateb: wedi ei dderbyn.** Cafodd *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* ei diweddaru'n sylweddol a'i hailgyhoeddi - mae bellach yn fwy darllenadwy a dealladwy. Rydym hefyd wedi ffurfioli'r modd y mae ein gwahanol gyrff hyd braich yn cael eu categoreiddio. Mae canllawiau a thempledi ar gyfer dogfennau allweddol eisoes wedi eu datblygu ar gyfer mathau cyffredin o gyrff, ond ystyrir ymhellach a oes angen canllawiau manylach ar gyfer is-gyrff hyd braich lle mae angen mwy o fanylder oherwydd yr her llywodraethu sy'n gysylltiedig â gweithgarwch masnachol. Ar hyn o bryd, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Academi Wales i ddatblygu deunydd cynefino ar gyfer aelodau newydd o'r Bwrdd.

**Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod mesurau yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod gan Aelodau'r Bwrdd yr arbenigedd a'r gallu priodol i gyflawni eu dyletswyddau a'u bod yn derbyn hyfforddiant cynefino digonol a phriodol.**

**Ymateb: wedi ei dderbyn.** Mae'r Uned Penodiadau Cyhoeddus yn dilyn gweithdrefnau trwyadl wrth wneud penodiadau cyhoeddus. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu deunydd cynefino ar gyfer aelodau newydd o'r Bwrdd; ac yn ddiweddar mae Academi Wales wedi datblygu rhaglen gynefino ar gyfer aelodau byrddau'r GIG, ac mae hon yn cael ei hadolygu a'i haddasu er mwyn iddi fod yn briodol ar gyfer pob penodiad cyhoeddus newydd. Bwriedir i'r cwrs cynefino cynnig cyfres dreigl o fodiwlau a ddarperir ddwywaith y flwyddyn.

**Argymhelliad 4**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod capasiti a gallu Byrddau yn cael sylw gofalus pryd bynnag y bydd aelodau'n absennol neu'n methu â chymryd rhan oherwydd gwrthdaro rhwng buddiannau.**

**Ymateb: wedi ei dderbyn.** Bydd Uned Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phenaethiaid Gweithrediadau ar draws Llywodraeth Cymru i adolygu'r canllawiau ar gyfer penodi byrddau a rheoli gwrthdaro buddiannau, yn enwedig yn achos is-gyrff hyd braich. Ystyrir pa ddulliau fyddai'n addas ar gyfer rhoi sylw i hyn, ar y cyd â'r byrddau eu hunain, er enghraifft, gallai hyn fod yn rhan o becyn hyfforddiant a darperir i'r aelodau drwy Academi Wales.

**Argymhelliad 5**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai fod yn eglur pwy yw swyddog cyfrifyddu mewnol Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyrff hyd braich, yn enwedig lle mae swyddogion yn gweithredu y tu allan i'w trefniadau rheoli llinell arferol.**

**Ymateb: wedi ei dderbyn.** Mae'n debygol mai etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016 fydd y prawf ymarferol nesaf o'r gweithdrefnau gwell sydd ar waith eisoes i reoli cyfrifoldebau swyddogion cyfrifyddu. Cyn yr etholiadau, bydd Uned Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phenaethiaid Gweithrediadau ar draws Llywodraeth Cymru i adolygu a mireinio trefniadau. Byddant yn gwneud hynny er mwyn sicrhau bod trefniadau'n parhau'n eglur a bod llwybr clir yn bodoli rhwng y timau noddi a'r swyddog cyfrifyddu mewnol priodol ar ôl i unrhyw newidiadau gael eu gwneud, a bod y llwybr clir hwn wedi'i ddatgan yn ddiamwys.

**Argymhelliad 6**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid gwella'r canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei swyddogion sy'n bresennol mewn cyfarfodydd bwrdd allanol, gan nodi'n benodol ei bod yn ofynnol i sylwedyddion ddarparu adroddiad ysgrifenedig i'w rheolwr llinell am eu gweithgareddau a'r penderfyniadau allweddol a wnaed.**

**Ymateb: wedi ei dderbyn.** Mae Uned Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru eisoes wedi bod yn gweithio gyda thimau noddi i ddatblygu cylch gorchwyl i helpu sylwedyddion newydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Cymwysterau

Cymru a Hybu Cig Cymru. Mae'r Uned Llywodraethu Corfforaethol nawr yn bwriadu datblygu cylch gorchwyl y gellir ei ddefnyddio fel templed, ynghyd â chanllaw arferion gorau, ar gyfer swyddogion sy'n mynd i gyfarfodydd bwrdd allanol. Caiff y gofyniad i baratoi adroddiadau ysgrifenedig ei ystyried fel rhan o'r gwelliannau hynny; a rhoddir ystyriaeth hefyd i'r ffordd orau o gadw cofnod o unrhyw arsylwadau.

**Argymhelliad 7**
**Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod gweithdrefnau mwy eglur wedi'u sefydlu'n ddiweddar ar gyfer trosglwyddo portffolios rhwng adrannau Llywodraeth Cymru. Mae'n argymell bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu hadolygu yng ngoleuni ein hymchwiliad ac yn cael eu cryfhau yn unol â hynny.**

**Ymateb: wedi ei dderbyn.** Mae'n debygol mai etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016 fydd y prawf ymarferol nesaf o'r gweithdrefnau gwell sydd ar waith i ymdrin â throsglwyddo portffolios rhwng Grwpiau newydd Llywodraeth Cymru, os bydd newidiadau i bortffolios Gweinidogion. Cyn yr etholiadau, bydd Uned Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phenaethiaid Gweithrediadau ar draws Llywodraeth Cymru i adolygu a mireinio'r gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn parhau'n gadarn.

**Argymhelliad 8**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Pwyllgor sy'n ein holynu yn y Pumed Cynulliad fonitro'r broses o drosglwyddo busnes ar lefel Gweinidogion a swyddogion yn Llywodraeth Cymru a rhwng ei hadrannau, mwyn chwilio'n ofalus am dystiolaeth bod y newidiadau hyn wedi eu rhoi ar waith.**

**Ymateb**: Mater i'r Cynulliad Cenedlaethol yw'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 9**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid adolygu prosesau caffael Llywodraeth Cymru er mwyn atal gwybodaeth masnachol-sensitif rhag cael ei datgelu'n ddiangen i'r farchnad.**

**Ymateb: wedi ei dderbyn.** Mae ffrwd waith Llywodraethu Masnachol wedi ei chreu i adolygu holl arferion a pholisïau caffael Llywodraeth Cymru. Canlyniad hynny fydd mwy o reolaeth a chymorth mewn perthynas â'r holl weithgarwch caffael sy'n digwydd o fewn Llywodraeth Cymru. O fewn y ffrwd waith hon, datblygir canllawiau ychwanegol a hyfforddiant ar gyfer staff sy'n ymgymryd â gweithgarwch masnachol ar ran Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 10**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau mewn perthynas â'i phortffolio asedau sy'n weddill er mwyn sicrhau bod ganddi berchnogaeth gyfreithiol glir ar bob ased, bod ganddi'r prisiadau diweddaraf a bod ganddi ddealltwriaeth lawn o'r ffordd orau o sicrhau bod eu potensial ar gyfer datblygiad yn cyd-fynd ag amcanion polisi ehangach.**

**Ymateb: wedi ei dderbyn.** Er mwyn sicrhau perchnogaeth gyfreithiol, bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd pob cam i ddilysu'r teitl yn briodol cyn ei waredu.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cwblhau strategaeth ar gyfer rheoli asedau corfforaethol er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng ased a pholisi Gweinidog. Hefyd, bydd yn cyflwyno proses ar gyfer adolygu asedau'n rheolaidd. Cyhoeddir y strategaeth hon yng ngwanwyn 2016.

O ran daliadau ased Llywodraeth Cymru:

- Rydym wedi cysylltu â'r Gofrestrfa Tir i sicrhau bod yr asedau tir ac eiddo wedi eu cofrestru'n ffurfiol yn enw Gweinidogion Cymru, mewn nifer o feysydd portffolio. Cwblhawyd yr ymarfer hwn yn 2011.
- Yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae holl asedau eiddo (gwerth dros £5,000) y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arnynt wedi eu prisio'n unol â'u dosbarthiad a'u defnydd.
- Pan fydd ased yn cael ei ddatgan yn 'ased dros ben' a'i baratoi ar gyfer ei waredu, caiff prisiad marchnad benodol ei baratoi'n annibynnol, a chaiff y teitl a ddelir gan Weinidogion Cymru ei ddilysu fel sy'n briodol.
- Mae'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer trosglwyddo tir, sy'n cynnwys gofynion i gael prisiad annibynnol.
- Mae gan bob adran sy'n dal eiddo gynllun cyfredol ar gyfer rheoli asedau, sy'n cynnwys sut mae asedau'n helpu i fodloni anghenion busnes a pha ddarpariaethau llywodraethu sydd ar waith i reoli'r asedau hynny.

**Argymhelliad 11**
**Rydym yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, fynd i'r afael â'r gwendidau yn ei diwylliant sefydliadol sydd wedi golygu nad yw ei phrosesau cadw cofnodion yn ddigon trylwyr.**

**Ymateb: wedi ei dderbyn.** Cwblhaodd Llywodraeth Cymru ddau brosiect rheoli cofnodion yn ystod 2014/15 a 2015/16, y naill yn edrych ar reoli e-byst a chofnodion, a'r llall yn edrych ar sut i wella ein system cadw cofnodion electronig. Cynhaliwyd asesiad o'r trefniadau rheoli gwybodaeth gan yr Archifau Cenedlaethol yn ystod mis Mawrth 2015, a chafodd eu hadroddiad ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2015. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Cynllun Gweithredu i roi sylw i'r argymhellion a wnaed gan yr Archifau Cenedlaethol, ac yn unol â'u hawgrym, rydym wedi ymgorffori argymhellion Adolygiad Syr Alex Allan yn y cynllun hwn. Mae ein dull gweithredu sylfaenol yn canolbwyntio ar reoli gwybodaeth ar lefel yr uned fusnes yn hytrach na thrwy gofrestr ganolog o asedau gwybodaeth. Mae profiad yn dangos bod y dull hwn yn fwy effeithiol o ran meithrin dealltwriaeth gadarn o'n hasedau gwybodaeth a'r materion cysylltiedig sy'n ymwneud â rheoli gwybodaeth.

**Argymhelliad 12**

**Rydym yn argymell bod yn rhaid hysbysu Gweinidogion Cymru os bydd unrhyw un sy'n gweithredu ar eu rhan yn gwyro mewn modd perthnasol oddi wrth gynllun y cytunwyd arno yn flaenorol gan greu'r potensial i gael effaith niweidiol ar werth am arian, er mwyn iddynt allu ystyried y mater.**

**Ymateb*: wedi ei dderbyn.*** Er mwyn cyflawni'r cam gweithredu hwn, bydd angen datblygu canllawiau clir a chyson o ran yr hyn a olygir wrth wyro "mewn modd perthnasol", a hefyd sut mae gwerth am arian yn cael ei ddiffinio a'i asesu. Bydd hefyd angen cadarnhau bod gan bob parti sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru gylch gorchwyl clir y maent yn ei ddeall, ac sy'n nodi disgwyliadau Gweinidogion Cymru. O ran Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, gweithredir

trefniadau llywodraethu sydd wedi ei eu hen sefydlu er mwyn darparu'r sicrwydd hwn.

Serch hynny, o ran is-gyrff masnachol hyd braich, mae'n bosibl nad yw eu pwrpas wedi ei ddiffinio mor glir, a bod llai o eglurder ynghylch dymuniadau penodol Gweinidogion. Mae'n fwy tebygol y byddai gwyro yn yr achosion hyn yn cael canlyniadau mwy sylweddol.  Oherwydd hynny, i ddechrau, ar yr is-gyrff hyd braich y bydd Uned Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ei hymdrechion. Bydd yr Uned yn gweithio gyda Phenaethiaid Gweithrediadau ar draws Llywodraeth Cymru i gytuno ar ystyr y termau a ddefnyddir, a hefyd i adolygu'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith rhwng is-gyrff a thimau noddi. Rhoddir pwyslais penodol ar ddarparu canllawiau ar gyfer y gofynion adrodd.

Gan edrych ymlaen, bydd cyflwyno dull cyffredin newydd o gynllunio busnes ar draws Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ein dulliau gweithredu yn fwy trylwyr er mwyn troi blaenoriaethau Gweinidogion yn rhaglenni gwaith sy'n esgor ar y camau gweithredu a'r gweithgareddau pwrpasol. Bydd pennu cerrig milltir ar gyfer camau gweithredu a gweithgareddau, a ffyrdd o'u mesur, yn helpu swyddogion i nodi unrhyw wyro mewn modd perthnasol o'r cynlluniau y cytunwyd arnynt.

**Argymhelliad 13**
**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a Chronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio ystyried yn ofalus a oes unrhyw reswm posibl dros gymryd camau yn erbyn Lambert Smith Hampton (ac yn erbyn Amber mewn cysylltiad â'i rôl yn goruchwylio Lambert Smith Hampton) o safbwynt:**
**– y cyngor a ddarparwyd i Fwrdd y Gronfa ynglŷn â'r gwerthiant; a**
**– thelerau ei gontract penodi wrth weithredu ar ran SWLD a'r Gronfa.**

**Ymateb: wedi ei dderbyn.** Mae proses gyfreithiol wedi ei chychwyn yn erbyn Rheolwyr Buddsoddi'r Gronfa, Lambert Smith Hampton. Rydym yn adolygu'n sefyllfa'n barhaus i weld a oes angen cymryd camau cyfreithiol pellach.

**Argymhelliad 14**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyfeirio Lambert Smith Hampton at ei gorff proffesiynol.**

**Ymateb: wedi ei dderbyn.** Rydym wedi ysgrifennu i Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, gan roi iddo'r dystiolaeth sydd yn ein meddiant ynghylch ymddygiad Lambert Smith Hampton yn yr achos hwn.

**Argymhelliad 15**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyfleu ein barn i Lywodraeth y DU y dylid cyfeirio'r trafodiad gwerthu at y UE ar gyfer ystyriaethau Cymorth Gwladwriaethol. Nodwn mai mater i Lywodraeth y DU yw penderfynu a ddylid cyfeirio'r mater ai peidio, gan na allwn ni na Llywodraeth Cymru wneud hynny'n uniongyrchol.**

**Ymateb: wedi ei dderbyn.** Rydym wedi ysgrifennu i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau fel sy'n briodol.

**Argymhelliad 16**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau yr ystyrir trefniadau gorswm cadarn pryd bynnag y mae'n gwaredu asedau cyhoeddus y mae potensial i'w datblygu yn y dyfodol.**

**Ymateb: wedi ei dderbyn.** Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gael cyngor marchnata allanol ynghylch yr asedau y pennir y dylid eu gwaredu. Caiff darpariaethau "adfachu" neu "gorswm" eu cynnwys lle bo hynny'n briodol. Mae *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* (A4.14.12) yn hollol glir o ran yr amgylchiadau lle y dylid ystyried gorswm pan waredir ased. Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i argymell y dylai cyrff hyd braich ddilyn polisi tebyg. Mae arferion da ar gyfer gwaredu hefyd yn cael eu nodi'n glir yng nghanllaw Cydlynu Ystâd a Phrotocol Trosglwyddo Tir a gyhoeddwyd gan y Gweithgor Asedau Cenedlaethol ym mis Mehefin 2014, ac sydd ar gael i'w weld ar dudalen Asedau Cymru.

**Argymhelliad 17**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro a goruchwylio ei chyrff hyd braich, a sicrhau yn benodol bod unrhyw bryderon yn cael eu nodi a'u symud i fyny'r gadwyn fewnol yn gyflym.**

**Ymateb: wedi ei dderbyn.** Bydd Uned Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru yn darparu gweithdai i dimau noddi sy'n goruchwylio is-gyrff masnachol hyd braich, gyda'r nod o werthuso unrhyw wahaniaethau mewn arferion, nodi'r arferion gorau ac yna gweithio gyda thimau noddi i ddatblygu canllawiau cyffredin a safonau gofynnol ar gyfer arferion. Edrychir ar bob agwedd ar nawdd, gan gynnwys uwchgyfeirio pryderon. O wneud hynny, caiff cymuned o ymarferwyr ei datblygu o fewn Llywodraeth Cymru. Caiff y camau i'w cymryd mewn perthynas â safonau posibl ar gyfer arferion gweithgareddau noddi ehangach eu hystyried yng ngoleuni'r gwersi a ddysgir o'r ymarfer hwn.

**Argymhelliad 18**
**Er mwyn sicrhau llinellau atebolrwydd a rheoli clir a chadarn yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddynodi Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer pob rhaglen neu brosiect o bwys y mae'n ymgymryd ag ef, gyda llinellau atebolrwydd eglur i Weinidogion Cymru.**

**Ymateb: wedi ei dderbyn.** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pa mor bwysig yw rheoli prosiectau a rhaglenni mewn modd priodol. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd yn sgil profiadau Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, cychwynnwyd adolygiadau o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer eu prosiectau a'u rhaglenni mawr drwy dimau grwpiau gweithrediadau. Byddwn ni nawr yn ailadrodd y broses hon ar draws Llywodraeth Cymru gyfan fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y Llywodraeth nesaf.

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 9 Mawrth 2016 |
| Ein cyf: | HVT/2516/fgb |
| Tudalen: | 1 o 2 |

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS AR GRONFA BUDDSODDI CYMRU MEWN ADFYWIO**

Diolch am anfon ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio ataf, ynghyd â'r llythyr eglurhaol dyddiedig 7 Mawrth 2016 gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi.

Mae’n bleser gennyf nodi bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yn llawn bob un o'r 17 o argymhellion y Pwyllgor iddi. (Yn ychwanegol, mae argymhelliad 8 yn adroddiad y Pwyllgor, sy'n cyfeirio at gamau monitro gan ei Bwyllgor olynol yn y Pumed Cynulliad, yn fater i'r Cynulliad ei hun yn hytrach na Llywodraeth Cymru). Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhellion y Pwyllgor yn arbennig o galonogol wrth ystyried difrifoldeb casgliadau cyffredinol Adroddiad y Pwyllgor a adlewyrchodd y digwyddiadau ers i fy adroddiad fy hun gael ei gyhoeddi, gan gynnwys tystiolaeth o werthiannau dilynol yr asedau gan y prynwr.

Nodaf hefyd y cyfeiriadau penodol yn llythyr y Gweinidog at:

- ddatganiad y Prif Weinidog ac ymddiheuriad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Ionawr;
- Llywodraeth Cymru yn cychwyn camau cyfreithiol yn erbyn Rheolwr Buddsoddi'r Gronfa, Lambert Smith Hampton (mewn ymateb uniongyrchol i argymhelliad 13); ac
- ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau i adolygu a all camau cyfreithiol pellach fod yn angenrheidiol.

Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn hanfodol i wersi gael eu dysgu ac i arfer gael ei wella yn bwysig iawn, oherwydd bod llawer o'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor yn rhai y gellir eu cymhwyso'n ehangach i weithrediadau hyd braich a chynnal llywodraethu da.

Llinell Uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost: huw.vaughan.thomas@archwilio.cymru

Yn amlwg, bydd eich Pwyllgor olynol yn y Pumed Cynulliad yn dymuno craffu ar effeithiolrwydd camau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r adroddiad, er mwyn bodloni ei hun a hefyd er mwyn ceisio sicrwydd ar ran cyhoedd Cymru na fydd y materion a gododd gyda Chronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio yn cael eu hailadrodd. Felly rwy'n awgrymu y byddai'n helpu i hwyluso gwaith craffu'r Pwyllgor pe gallai Llywodraeth Cymru ddarparu rhai manylion mwy penodol ar amserlenni a dyddiadau cwblhau wedi'u bwriadu, oherwydd ar y cyfan nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn yr ymateb presennol (er enghraifft, gweler yr ymatebion i argymhellion 2, 6, 17 ac 18, lle nad oes un ohonynt yn cynnwys dyddiadau cwblhau targed). Yn ogystal, efallai y bydd y Pwyllgor am ysgrifennu at y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn gofyn am ragor o fanylion ynghylch camau gweithredu penodol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd, yn enwedig o ran argymhellion 4, 5, 12 ac 18. Byddai fy staff yn fwy na pharod i gynorthwyo'r Clercod wrth ddatblygu llythyr addas i Gadeirydd y Pwyllgor ei anfon.

O’m rhan i, rwy'n bwriadu monitro'n agos y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn erbyn pob un o'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor, gan gydnabod y gall rhai o'r rhain gymryd cryn amser i'w cwblhau (gan gynnwys yn benodol, ganlyniad yr ymgyfreitha yn erbyn Lambert Smith Hampton).



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**